

### Beth yw'r adolygiad gwybodaeth?

*Adolygiad gwybodaeth 6: Dysgu ac addysgu sgiliau cyfathrebu mewn addysg gwaith cymdeithasol* yw'r ail mewn cyfres o adolygiadau gwybodaeth SCIE sy'n edrych ar sut y dysgir sgiliau gwaith cymdeithasol craidd mewn addysg gwaith cymdeithasol. Mae'r adolygiad, a gomisiynwyd ar y cyd gyda'r Rhwydwaith Cymorth Dysgu ac Addysgu Polisi Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol (SWAPItsn), yn edrych ar sut y dysgir sgiliau cyfathrebu (hynny yw, cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol) a llwyddiant yr addysgu hwnnw. Mae'n tynnu negeseuon cyffredin o ymchwil gyfredol ac yn nodi meysydd lle mae angen rhagor o ymchwil i gefnogi arferion da.

### Ar gyfer pwy mae'r adolygiad gwybodaeth?

Bydd yr adolygiad gwybodaeth hwn yn cynorthwyo pobl sy'n addysgu gwaith cymdeithasol (hynny yw, academyddion, athrawon ymarfer a defnyddwyr gwasanaeth) i ddatblygu fframwaith ar gyfer addysgu sgiliau cyfathrebu. Bydd hefyd yn cynorthwyo ymchwilwyr i nodi meysydd lle mae angen rhagor o wybodaeth. Efallai y bydd yr adolygiad hefyd o ddiddordeb i fyfyrwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol.

### Sut cynhaliwyd yr adolygiad gwybodaeth?

Cynhaliodd tîm o chwe unigolyn o wahanol brifysgolion yr adolygiad gwybodaeth. Edrychodd y tîm ar ymchwil a llenyddiaeth gyfredol a oedd yn canolbwyntio ar wella sgiliau cyfathrebu gweithwyr gofal cymdeithasol trwy ddysgu sgiliau cyfathrebu. Asesodd y grŵp yr holl wybodaeth o ran perthnasedd ac ansawdd.

### Crynodeb o'r adolygiad

#### Cyflwyniad

Mae cyfathrebu da, llafar ac ysgrifenedig, yn ganolog i arferion gorau mewn gwaith cymdeithasol. Mae sgiliau cyfathrebu'n hanfodol i sefydlu cysylltiadau effeithiol sy'n parchu defnyddwyr gwasanaeth, ac yn hanfodol hefyd ar gyfer asesiadau, gwneud penderfyniadau a chydweithio gyda chydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.

Gall methu cyfathrebu'n dda arwain at ganlyniadau difrifol: cyfrannodd y math hwn o fethiant at farwolaeth Victoria Climbié.

Mae'r radd newydd mewn gwaith cymdeithasol yn rhoi pwyslais cryf ar gyfathrebu'n dda gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ac mae'n ganlyniad dysgu craidd. Oherwydd hyn, credai SCIE ei bod yn bwysig canfod sut y dysgir sgiliau cyfathrebu, llwyddiant yr addysgu, a nodi meysydd i'w datblygu.

### Canfyddiadau allweddol

Cyflwynodd y tîm adolygu grynoded o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad llenyddiaeth. Er eu bod yn nodi enghreifftiau da iawn o addysgu sgiliau cyfathrebu mewn addysg gwaith cymdeithasol, daeth y tîm i'r casgliad cyffredinol bod sawl gwahanol fath o ddulliau addysgu yn cael eu defnyddio ac nad oes llawer o wybodaeth y cytunir arni'n gyffredin yn sail i'r rhaglenni addysg. Nodwyd chwe maes ar gyfer ymchwil bellach.

- **Theori:** dim ond ychydig o erthyglau a oedd yn glir ynglŷn â'r theori a oedd yn sail iddynt. Awgryma hyn bod myfyrwyr yn cael eu dysgu mewn ffordd 'ymarferol' heb y theori i'w ategu. Mae angen mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau y seilir addysgu sgiliau cyfathrebu mewn addysg gwaith cymdeithasol ar theori brofedig a'i fod yn berthnasol i arferion gwaith cymdeithasol. Mae angen gwneud rhagor o waith ar sut ddylid defnyddio rhywfaint o'r theori am ddysgu ac addysgu cyfathrebu yn ymarferol.
- **Y fframwaith ar gyfer dysgu ac addysgu:** mae'r ffordd y dysgir sgiliau cyfathrebu yr un mor bwysig â'r hyn a addysgir. Nid oedd llawer o'r llenyddiaeth yn awgrymu fframweithiau addysgu a allai gyd-fynd â gwahanol ddulliau dysgu, ac mae pryderon ynglŷn â lle a sut yr hyfforddir addysgwyr gwaith cymdeithasol, o ran cynnwys addysgu sgiliau cyfathrebu a'r dull a ddefnyddir.
- **Natur drosglwyddadwy sgiliau cyfathrebu:** nid yw'n glir a ellir trosglwyddo'r sgiliau y mae myfyrwyr yn eu dysgu yn yr ystafell ddosbarth i'r gweithle ac a ellir eu defnyddio mewn gwahanol sefyllfaoedd, sy'n rhai anodd yn aml. Mae'n rhaid integreiddio hyfforddiant sgiliau cyfathrebu'n well gyda dysgu ymarfer.
- **Gwerthuso:** nid oes llawer o wybodaeth am ba mor effeithiol y mae sgiliau cyfathrebu'n cael eu dysgu a pha mor dda y mae myfyrwyr yn dysgu'r sgiliau hyn. Mae angen gwneud mwy o waith ar ddiffinio a mesur canlyniadau a'r ffyrdd y gellir defnyddio technoleg i gefnogi dysgu ac addysgu wyneb-i-wyneb.
- **Cyfranogiad defnyddwyr:** nid oedd tystiolaeth o gyfranogiad defnyddwyr mewn addysgu yn y llenyddiaeth a adolygwyd. Efallai mai'r rheswm am hyn yw'r diddordeb cymharol ddiweddar yn y maes hwn. Mae gofynion craidd i gynnwys safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth yng nghynllun a darpariaeth y radd newydd yn ei gwneud hi'n hanfodol i addysgwyr ddechrau datblygu partneriaethau yn y maes hwn. Am ragor o wybodaeth am gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn y radd gwaith cymdeithasol, gweler cyhoeddiad SCIE: *Canllaw Adnoddau 2: Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn addysg gwaith cymdeithasol*.
- **Diwallu gwahanol anghenion cyfathrebu:** ni ddaeth yr adolygiad llenyddiaeth ar draws llawer o ymchwil neu ganllawiau am hyfforddiant mewn sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig neu

sut i gyfathrebu gyda phobl o wahanol ddiwylliannau a chydag anghenion cyfathrebu penodol, er enghraifft, pobl sydd â Saesneg yn ail iaith iddynt a phlant. Mae'n bwysig gwneud mwy o waith yn y maes hwn.

## Casgliad

Nododd yr adolygiad gwybodaeth amrywiaeth o ddulliau defnyddiol o addysgu sgiliau cyfathrebu ond nid oedd yn nodi corff unedig o wybodaeth i seilio rhaglenni addysgu arnynt. Roedd hefyd yn amlygu meysydd y mae angen gwneud mwy o waith ynddynt. Fodd bynnag, mae'r arbenigedd ymhlith addysgwyr gwaith cymdeithasol yn llawer uwch na'r hyn a adlewyrchir yn y llenyddiaeth. Mae casgliadau un adolygiad yn nodi bod cryn dipyn o arferion arloesol ar waith yn y maes hwn nad ydynt wedi'u cynnwys yn y llenyddiaeth.

Gobeithio y bydd yr adolygiad gwybodaeth hwn yn sbardun i annog addysgwyr i gyhoeddi eu gwybodaeth a'u profiad ar addysgu sgiliau cyfathrebu i annog eraill i ymchwilio i'r meysydd a nodir yn y negeseuon allweddol.

Os gellir datblygu'r meysydd a nodir yn y canfyddiadau allweddol, mae potensial i adeiladu addysgu a dysgu sgiliau cyfathrebu mewn gwaith cymdeithasol ar sylfeini cadarn – rhaganghenraid hanfodol ar gyfer dysgu, addysgu, ac arferion effeithiol.

## Gwaith yn y dyfodol

Mae SCIE yn cynhyrchu cyfres o gyhoeddiadau i gefnogi'r gwaith o ddysgu ac addysgu sgiliau gwaith cymdeithasol craidd. Mae adolygiad gwybodaeth am sgiliau asesu dysgu ac addysgu wedi'i gyhoeddi'n barod a bydd cyhoeddiadau eraill yn canolbwyntio ar gyfraith mewn gwaith cymdeithasol, gweithio mewn partneriaeth, gweithio rhyngbroffesiynol a thwf a datblygiad dynol. Bydd canllaw adnoddau a fydd yn cyfeirio pobl at wybodaeth gyfredol am ddysgu ac addysgu sgiliau cyfathrebu mewn addysg gwaith cymdeithasol yn cael ei gyhoeddi yn Haf 2004. Bydd gwaith pellach yn cael ei gyflawni ar gyfathrebu gyda phlant – maes y nododd y tîm adolygu fod angen rhagor o waith arno.

## Beth yw SCIE?

Swyddogaeth SCIE yw hyrwyddo arferion gorau mewn gofal cymdeithasol. Rydym yn gweithio gyda gweithwyr a chyflogwyr gofal cymdeithasol, sefydliadau addysg a hyfforddiant a defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau gofalwyr i ddod o hyd i enghreifftiau o arferion da ym mhob agwedd ar ofal cymdeithasol. Trwy ddefnyddio'r enghreifftiau hyn, rydym yn datblygu adnoddau rhad ac am ddim ar bapur ac ar y we ynglŷn â'r hyn sy'n gweithio'n dda, ynghyd â gwersi a syniadau y gall gweithwyr ac addysgwyr gofal cymdeithasol eu defnyddio yn eu gwaith. Trwy sicrhau bod gwybodaeth am arferion da ar gael yn hawdd i'r sector, bydd gwaith SCIE yn cyfrannu at arferion positif a newid polisi.

Mae gwaith SCIE yn cwmpasu hyd a lled gofal cymdeithasol o faethu a mabwysiadu, i addysg gwaith cymdeithasol, i iechyd meddwl, i ddatblygu adnoddau dynol. Rydym hefyd yn rheoli llyfrgell ar-lein gynhwysfawr o adnoddau gofal cymdeithasol.

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn gan: Pamela Trevithick, Prifysgol Bryste, Sally Richards, Prifysgol Reading, Gillian Ruch, Prifysgol Southampton, a Bernard Moss, Prifysgol Swydd Stafford gyda Linda Lines, y Brifysgol Agored ac Oded Manor, gynt o Brifysgol Middlesex.

Social Care Institute for Excellence  
Goldings House  
2 Hay's Lane  
Llundain SE1 2HB  
Ffôn 020 7089 6840  
Ffacs 020 7089 6841  
Ffôn testun 020 7089 6893  
[www.scie.org.uk](http://www.scie.org.uk)

Bydd fersiwn braille, ar dâp ac argraffiadau print bras ar gael ar gais.

Mae fersiwn lawn o'r Adolygiad Gwybodaeth ar gael ar wefan SCIE ac mewn print oddi wrth SCIE.